# Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych – Nodiadau Canllaw

***Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU*** –
Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: prosbectws - GOV.UK (www.gov.uk)

## 1. Cyflwyniad

Cefnogir Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych gan Gyngor Sir Ddinbych ac fe'i hariannwyd gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF). Bydd y Gronfa Allweddol hon yn ategu nod Sir Ddinbych i gynorthwyo gyda darparu cymorth cyflogadwyedd o safon gan gynnwys addysg a hyfforddiant sy'n fodd i bobl o bob oedran gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Bydd y Gronfa Allweddol hefyd yn ategu amcanion blaenoriaeth Pobl a Sgiliau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sef:

- Hybu sgiliau craidd a chefnogi oedolion i wneud cynnydd yn eu gwaith, drwy dargedu oedolion naill ai heb gymwysterau neu sgiliau neu â chymwysterau a sgiliau mathemateg lefel isel, ac uwchsgilio'r boblogaeth sy'n gweithio, gan greu effaith economaidd bersonol a chymdeithasol, a drwy annog dulliau arloesol o leihau'r rhwystrau sy'n atal oedolion rhag dysgu.
- Lleihau'r lefelau o anweithgarwch economaidd drwy fuddsoddi mewn cymorth bywyd a gwaith dwys a phwrpasol sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion yr ardal. Dylai'r buddsoddiad hwyluso cydgysylltu darpariaeth prif ffrwd a gwasanaethau lleol mewn ardal ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan, drwy fanteisio ar gymorth gweithwyr allweddol un-i-un, gan wella'r deilliannau o ran gwaith i garfannau penodol sy'n wynebu rhwystrau i'r farchnad lafur.
- Cynorthwyo'r rheiny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i oresgyn rhwystrau rhag dod o hyd i waith drwy ddarparu cymorth hollgynhwysol wedi'i deilwra'n lleol, gan gynnwys modd iddyn nhw ddatblygu sgiliau sylfaenol.
- Cynorthwyo ardaloedd lleol i ariannu diffygion o ran y ddarpariaeth sgiliau lleol i gefnogi pobl i wneud cynnydd yn eu gwaith, ac ychwanegu at y ddarpariaeth sgiliau oedolion lleol e.e. drwy ddarparu cymorth ychwanegol; cyflawni darpariaeth drwy ystod fwy eang o ffyrdd neu gynnal darpariaeth fwy dwys / arloesol, yn seiliedig ar gymwysterau a heb fod yn seiliedig ar gymwysterau.

## 2. Beth allai'r Gronfa Allweddol ei Gefnogi?

Bydd y Gronfa Allweddol yn dwyn i ystyriaeth ceisiadau prosiect sy'n mynd i'r afael ag amcanion Pobl a Sgiliau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac sy'n cyflawni un neu fwy o'r ymyriadau ynghlwm â maes Blaenoriaeth Buddsoddi Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sef Pobl a Sgiliau (W34 - W43) - Rhestr o Ymyriadau ar gyfer Cymru - GOV.UK (www.gov.uk).

***Cynorthwyo pobl economaidd anweithgar i oresgyn rhwystrau rhag gweithio trwy ddarparu cymorth cydlynol, wedi'i deilwra'n lleol, yn cynnwys modd iddyn nhw ddatblygu sgiliau sylfaenol***

W34: Cymorth cyflogaeth ar gyfer pobl economaidd anweithgar: Cymorth un-i-un dwys a chofleidiol i sicrhau ei bod hi'n haws i bobl fanteisio ar ddarpariaeth prif ffrwd a dod o hyd i waith a'i gadw. Hyn i gyd wedi'i ategu gan gymorth ychwanegol a/neu arbenigol gyda sgiliau bywyd a sylfaenol pan fo diffygion yn y ddarpariaeth leol. Cyllid ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol i bobl economaidd anweithgar, ble mae'r ddarpariaeth yn ychwanegol i'r ddarpariaeth a ariennir drwy ddarpariaeth prif ffrwd.

***Cynorthwyo'r bobl sydd bellaf o'r farchnad lafur drwy gynnig modd iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau sylfaenol***

W35: Cyrsiau sy'n cynnwys sgiliau sylfaenol (digidol, Saesneg, mathemateg (trwy Lluosi) a SSIE), ynghyd â darpariaeth sgiliau bywyd a sgiliau gyrfa ar gyfer pobl sydd ddim yn economaidd anweithgar ac sydd methu â manteisio ar hyfforddiant neu gymorth cofleidiol arall sydd wedi'u crybwyll uchod. Wedi'i ategu gan gymorth ariannol er mwyn i ddysgwyr gofrestru ar gyrsiau a chwblhau cymwysterau.

W36: Gweithgareddau fel cyfoethogi a gwirfoddoli i wella cyfleoedd a hyrwyddo lles.

W37: Ymyriadau i gynyddu lefelau o gynhwysiant digidol, gan ganolbwyntio ar sgiliau digidol hanfodol, cyfleu manteision mynd ar-lein (yn ddiogel), a chymorth yn y gymuned i roi hyder ac ymddiriedaeth i ddefnyddwyr aros ar-lein.

***Sgiliau i wneud cynnydd mewn gwaith ac ariannu anghenion sgiliau lleol***

W38: Cymorth wedi'i deilwra i helpu pobl ddod o hyd i waith, nad ydyn nhw'n cael eu cynorthwyo gan ddarpariaeth brif ffrwd i fynd i'r afael â rhwystrau rhag gallu manteisio ar gyrsiau addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cadw grwpiau sy'n debygol o adael y farchnad lafur yn gynnar i aros ynddi.

W39: Cymorth ar gyfer ardaloedd lleol i ariannu anghenion sgiliau lleol. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau a chyrsiau technegol a galwedigaethol hyd at lefel 2 a hyfforddiant ar gyfer trwyddedau galwedigaethol sy'n berthnasol i anghenion ardaloedd lleol, a chymwysterau gwerth uchel ble mae angen am gapasiti sgiliau ychwanegol na ellir ei fodloni drwy gyllid prif ffrwd.

W42: Cyllid i gefnogi sgiliau digidol lleol.

W43: Cyllid i gefnogi ymgysylltiad a datblygu sgiliau mwy meddal ar gyfer pobl ifanc, mewn perthynas â gwaith Gyrfa Cymru / Cymru'n Gweithio.

Gallai'r Gronfa Allweddol gefnogi prosiectau sy'n ategu ac sy'n ychwanegol i'r cymorth a'r ymyriadau presennol sy'n ffurfio rhan o Sir Ddinbych yn Gweithio (Sir Ddinbych yn Gweithio | Cyngor Sir Ddinbych) a'r gyfres o brosiectau y mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Sir Ddinbych yn eu hariannu Thema Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Dysgu a Thyfu: Pobl a Sgiliau | Cyngor Sir Ddinbych. Dylai ymgeiswyr prosiect y Gronfa Allweddol sicrhau hefyd na chaiff eu prosiectau arfaethedig eu cyflawni drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru neu unrhyw ddarpariaeth prif ffrwd arall.

**RYDYM YN ARGYMELL YN GRYF FOD DARPAR YMGEISWYR AR GYFER Y GRONFA ALLWEDDOL YN ADOLYGU'R WYBODAETH YN Y DOLENNI UCHOD A LLE'N BRIODOL, YN CYSYLLTU GYDA'R ARWEINWYR PROSIECT PERTHNASOL ER MWYN SICRHAU NAD YDY EU PROSIECT ARFAETHEDIG YN DYBLYGU UNRHYW DDARPARIAETH BRESENNOL.** Mae rhestr o brosiectau a mentrau presennol ynghyd â manylion cyswllt ar eu cyfer wedi'u rhestru yma Atodiad A – Rhestr o Fanylion Cyswllt ar gyfer Prosiectau Sir Ddinbych yn Gweithio a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

Yn gyffredinol, ni fyddwn yn disgwyl y byddai ymgeiswyr presennol Cronfa Ffyniant Gyffredin Sir Ddinbych yn ymgeisio am y Gronfa Allweddol hon, fodd bynnag os byddai unrhyw ymgeiswyr presennol yn dymuno cael eu hystyried, bydd angen iddyn nhw gyflwyno achos cadarn iawn dros werth ychwanegol ac ychwanegedd yn eu cais am gyllid gan y Gronfa Allweddol hon.

### 3. Allbynnau a Deilliannau eich Prosiect

Gallai'r Gronfa Allweddol hon gefnogi prosiectau sy'n hyfforddi, uwchsgilio, mentora ac yn cynorthwyo pobl ac sy'n cyflawni allbynnau a deilliannau canlynol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU:

**Allbynnau:**
- Nifer y bobl economaidd anweithgar sy'n manteisio ar wasanaethau cymorth gan weithwyr allweddol;
- Nifer y bobl sy'n manteisio ar gymorth iechyd meddwl a chorfforol sy'n arwain at ddod o hyd i waith;
- Nifer y bobl sy'n datblygu sgiliau sylfaenol;
- Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i ddatblygu eu sgiliau bywyd;
- Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i gyflawni addysg.

**Deilliannau:**
- Pobl sy'n derbyn cymorth i wella'u sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau

- Nifer y bobl sy'n ennill cymwysterau, trwyddedau a sgiliau
- Nifer yr unigolion gweithredol neu barhaus sy'n cymryd rhan mewn grwpiau cymunedol yn sgil derbyn cymorth
- Nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau gofal iechyd prif ffrwd
- Nifer y bobl sy'n cyflawni addysg / hyfforddiant yn sgil derbyn cymorth
- Nifer y bobl sydd wedi dod o hyd i waith â chefnogaeth

Gwelwch ddisgrifiad o'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer allbynnau a deilliannau yn Atodiad B – Allbynnau a Deilliannau

## 4. Cydraddoldeb, y Gymraeg a Sero Net

Dylai pob prosiect sy'n derbyn cymorth gan y Gronfa Allweddol ddangos sut maen nhw'n cyflawni gwaith sy'n berthnasol i'r meysydd polisi allweddol canlynol:

**Cydraddoldeb** – Fe ddylai bod eich prosiect yn sicrhau bod dull rhagweithiol ar waith er mwyn cynnig cymaint o gyfleoedd â phosibl o ran cyfraniad y prosiect tuag at bob un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Dylai bod effeithiau dichonol gweithrediadau'r prosiect ar y grwpiau nodweddion gwarchodedig yn ystyriaeth allweddol. Dylai ymgeiswyr y gronfa allweddol ystyried a gweithredu, lle'n briodol, teilwra gweithrediadau sydd wedi'u hariannu gan y prosiect i fodloni anghenion mynediad y grwpiau nodweddion gwarchodedig; datblygu prosesau monitro sy'n ymwneud ag asesiad cydraddoldeb penodol; ymwneud yn weithredol gyda mudiadau a grwpiau cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig i sicrhau bod y grwpiau hynny'n manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad y prosiect.

**Y Gymraeg** – Bydd yn rhaid i Ymgeiswyr y Prosiect sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ynghlwm â'u holl weithgareddau a chaiff y Gymraeg ei hyrwyddo a'i hwyluso'n rhagweithiol yng nghyd-destun holl weithgarwch y prosiect. Mae gofyn i'r holl waith cyfathrebu gyda'r cyhoedd a buddiolwyr y prosiect sydd wedi'i ariannu gan y prosiect fod yn ddwyieithog e.e. gwefannau sydd wedi'u hariannu gan y prosiect, cyfryngau cymdeithasol, taflenni ac ati. Caiff ymgeiswyr eu hannog i fanteisio ar gymorth megis Helo Blod, Menter Iaith ac asiantaethau a gwasanaethau perthnasol eraill.

**Sero Net –** Dylai ymgeiswyr y Gronfa Allweddol ddwyn i ystyriaeth ffocws Llywodraeth Cymru a'r Du ar gyfrannu tuag at amcanion sero net a'r ystyriaethau amgylcheddol ehangach. Bydd gofyn i'r Ymgeiswyr ddwyn i ystyriaeth sut gall eu prosiectau nhw gydweithio gyda'r amgylchedd naturiol i gyflawni amcanion eu prosiect, ac o leiaf, ystyried effaith y prosiect ar ein hasedau naturiol a'r byd natur.
https://www.gov.wales/welsh-government-net-zero-strategic-plan
https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy

## 5. Pa gostau a ellir eu hariannu?

Bydd y Gronfa Allweddol yn ariannu costau refeniw megis y canlynol:

- costau hyfforddiant
- digwyddiadau untro
- costau ymgynghori sy'n ymwneud â hyfforddiant
- costau staff sy'n gysylltiedig â'r prosiect
- costau cyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r prosiect
- costau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect
- costau cynnal sy'n gysylltiedig â'r prosiect
- treuliau gwirfoddolwyr
- costau ar gyfer cyflawni eich prosiect yn ddwyieithog megis costau cyfieithu a chostau hyfforddwr dwyieithog

Gallwch weld rhestr o'r costau anghymwys yma Atodiad C – Gwariant Anghymwys .

## 6. Cyfradd a Gwerth y Grant

Gallai'r Gronfa Allweddol ariannu hyd at 100% o'r costau cymwys. Gan ddwyn i ystyriaeth y raddfa amser gymharol fyr o ran darparu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae cyllid cyfatebol yn ddewisol h.y. nid yw'n orfodol. Bydd y Gronfa Allweddol yn caniatáu cymaint o hyblygrwydd â phosibl o ran gwerth y grant y gofynnir amdano, fodd bynnag mae'n rhaid nodi y dylai'r ceisiadau fodloni'r canlynol:

- ✓ eu bod yn rhesymol o ran yr amserlen cyflawni;
- ✓ yn gymesur â'r allbynnau a'r deilliannau sydd i'w cyflawni, ac yn
- ✓ realistig o ran y lefel o gymorth sydd ei angen ar y buddiolwyr terfynol.

## 7. Pwy allai ymgeisio?

Gall y mathau canlynol o fudiadau ymgeisio am gyllid, fodd bynnag, mae'n rhaid i bob ymgeisydd fod â hanes o weithredu yn Sir Ddinbych:

- Mudiadau gwirfoddol neu gymunedol cyfansoddiadol
- Elusennau cofrestredig
- Grwpiau neu glybiau cyfansoddiadol
- Cwmnïau nid-er-elw neu Gwmnïau Buddiant Cymunedol (mentrau cymdeithasol)
- Ysgolion (ar yr amod bod eich prosiect yn ymwneud gydag ac yn fanteisiol i'r gymuned leol)
- Corff statudol (gan gynnwys cyngor tref, plwyf a chymuned)
- Cyrff sector cyhoeddus

Gall consortiwm o fudiadau gyflwyno cais. Mewn achos o'r fath, bydd angen nodi partner arweiniol yng nghynnig / ffurflen gais y prosiect.

Nid oes hawl gan unigolion gynnig prosiectau i'r Gronfa Allweddol. Ni all busnesau masnachol gynnig prosiectau i'r Gronfa Allweddol, fodd bynnag gallai ymgeiswyr cymwys gaffael busnesau masnachol i gyflawni un neu fwy agwedd o'u prosiectau. Mae'n rhaid i bob mudiad sy'n ymgeisio feddu ar gyfansoddiad a chyfrif banc o leiaf, ynghyd â gweithdrefnau ariannol a chyflawni cadarn i gyflawni mewn dull sy'n cydymffurfio gyda gofynion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Gwelwch Atodiad D – Cydymffurfiad Ariannol i weld manylion ynghylch hyn.

## 8. Sut mae gwneud cais?

**Datganiad o Ddiddordeb (Dewisol)**
Cwblhewch ffurflen **Datganiad o Ddiddordeb** ar-lein ar Borth Cadwyn Clwyd drwy glicio'r ddolen yma https://submit.link/2x2 os hoffech chi gael sgwrs gychwynnol gydag un o Swyddogion Cadwyn Clwyd am eich prosiect arfaethedig **CYN ichi gyflwyno cais llawn.**

**Ymgeisio am Gyllid Allweddol**
Cwblhewch ffurflen **Gais** ar-lein ar Borth Cadwyn Clwyd drwy glicio'r ddolen yma https://submit.link/2xF i gyflwyno cais llawn.

## 9. Graddfeydd amser

Dyma'r dyddiadau ar gyfer y Gronfa Allweddol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Ymgeisio ar Agor | **Dydd Llun 15/04/2024** |
| Dyddiad Cau ar gyfer Ymgeisio | **Dydd Gwener 31/05/2024** |
| Cwblhau'r gwaith Cyflawni erbyn | **Dydd Gwener 29/11/2024** |
| Cyflwyno hawliadau grant erbyn | **Dydd Llun 02/12/2024*** |

*Dylid cyflawni'r holl brosiectau, ynghyd â chyflwyno'r holl hawliadau grant am gostau a gafwyd, i Cadwyn Clwyd erbyn **DYDD GWENER, TACHWEDD YR 29AIN 2024** fan bellaf**.** Gall ymgeiswyr fynd i gostau ôl-weithredol a chyflwyno hawliad i'r Gronfa Allweddol ar ôl y dyddiad cau, ond bydd hyn ar eu menter eu hunain.

## 10. Gwybodaeth bellach

I wybod mwy, cysylltwch gyda Cadwyn Clwyd:

admin@cadwynclwyd.co.uk
01490 340500

**Datganiad Preifatrwydd Cadwyn Clwyd**

Mae Cadwyn Clwyd yn trin preifatrwydd data yn ddifrifol iawn ac yn cydymffurfio gyda holl agweddau fframwaith deddfwriaethol diogelu data y DU. Gallwch fwrw golwg ar ein polisi preifatrwydd yma http://cadwynclwyd.co.uk/wp-content/uploads/Cadwyn-Clwyd-Privacy-Policy.pdf

# Atodiad A – Rhestr o Fanylion Cyswllt ar gyfer Prosiectau Sir Ddinbych yn Gweithio a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

| **Hyder Digidol Sir Ddinbych** | |
|---|---|
| **Arweinydd y Prosiect: Cwmpas** | **Cyswllt: David Madge**<br>dcdenbighshire@cwmpas.coop<br>**Ffôn:** 0300 111 5050 |

Bydd y prosiect hwn yn cynnig cymorth cynhwysiant digidol uniongyrchol i unigolion. Bydd y cymorth ar ffurf cyngor a hyfforddiant cynhwysiant digidol ac yn darparu dyfeisiau addas i unigolion yn dibynnu ar eu hanghenion. Caiff cymorth ei gynnig mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Cymorth cynhwysiant digidol un-i-un yn y gymuned.
- Sesiynau hyfforddiant mewn lleoliadau cymunedol, gan gynnwys cymorth galw heibio a chyrsiau i wella sgiliau cynhwysiant digidol.
- Grantiau neu dalebau ar gyfer cyfarpar a/neu ddata
- Cyfeirio unigolion at wasanaethau gwaith ac addysg bellach perthnasol.

| **Llwybrau** | |
|---|---|
| **Arweinydd Posiect: Cyngor Sir Ddinbych** | **Cyswllt: Vona Law**<br>**vona.law@denbighshire.gov.uk**<br>**Ffôn: 01824 708032** |

Bydd y prosiect Llwybrau yn cynnig cymorth i oddeutu 420 o bobl ifanc bob blwyddyn academaidd yn Sir Ddinbych er mwyn lleihau eu risg o ymddieithrio oddi wrth addysg, cynnig cymorth i ailgydio mewn addysg, neu ddod o hyd i waith neu hyfforddiant ar ddiwedd blwyddyn 11. Y nod cyffredinol ydy mynd i'r afael ag un o achosion tlodi hirdymor.

Mae Llwybrau yn cynnig dau brif agwedd i gynorthwyo pobl ifanc bregus:

- Swyddogion Ymgysylltu Addysg.
- Cwnselwyr, a fydd yn cynnig gwasanaethau ychwanegol er mwyn targedu iechyd meddwl, yn enwedig ymhlith bechgyn

Funded by UK Government | Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council | CADWYN CLWYD

| Partneriaeth Sgiliau Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Cymru | |
|---|---|
| **Arweinydd Prosiect: The Little Learning Company** | **Cyswllt: Michelle Wright** **michelle@thelittlelearningcompany.co.uk** **Ffôn: 07745 665573** |
| Bydd y prosiect treftadaeth a sgiliau hwn yn cefnogi ac yn diogelu hen grefftau, dulliau adeiladu a pheirianneg drwy greu cyfleoedd hyfforddiant a rhannu gwybodaeth ledled amryw safleoedd yn Sir Ddinbych, gan sicrhau bod Gogledd Cymru ar flaen y gad wrth hybu sgiliau treftadaeth. Bydd y prosiect yn:<br>• cynyddu'r gallu i ddarparu hyfforddiant yn y sector<br>• creu a hwyluso cyfleoedd rhannu gwybodaeth i ategu'r rhwydwaith sgiliau treftadaeth bresennol<br>• datblygu a darparu cyfleoedd newydd i bobl 16 oed a hŷn allu ymuno â'r sector<br>• creu nifer o gyfleoedd i bobl fynd rhagddi i gyflawni Addysg Bellach, Addysg Uwch neu ddod o hyd i waith<br>• cymorth i fynd i'r afael â phrinder sgiliau treftadaeth<br>• cysoni'r ddarpariaeth sgiliau treftadaeth â chyllid prif ffrwd<br>• cynnig cyfleoedd newydd i bobl wella'u sgiliau rhifedd | |

| Cynllun Braenaru'r Rhwydwaith TALENT Twristiaeth | |
|---|---|
| **Arweinydd Prosiect: Coleg Llandrillo (Grŵp Llandrillo Menai).** Mae'r prosiect hwn yn ymdrin â mwy nag un awdurdod lleol. | **Cyswllt: Claire Jones, Rheolwr Prosiect** **claire.jones@gllm.ac.uk** **07821657022** |
| Nod y prosiect hwn ydy mynd i'r afael â'r heriau y mae'r sector twristiaeth a lletygarwch yng Ngogledd Cymru yn eu hwynebu, yn enwedig y diffyg diddordeb ac ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc fel y dangosir gan y gostyngiad yn y nifer sy'n cofrestru ar gyrsiau perthnasol a'r cyfraddau recriwtio isel. Diben y Cynllun Braenaru Rhwydwaith TALENT Twristiaeth ydy newid safbwynt pobl am y sector a chreu cyflenwad o fyfyrwyr drwy godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa drwy amryw fentrau, gan gynnwys canllawiau gyrfa, rhaglenni gweithgarwch a chyfleoedd profiad gwaith.<br><br>Bydd y Cynllun Braenaru hwn yn gosod y seiliau ar gyfer sefydlu'r Rhwydwaith TALENT Twristiaeth (Bargen Dwf Gogledd Cymru) er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o ran recriwtio, herio safbwyntiau negyddol a hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector twristiaeth. Drwy gydweithio gyda rhanddeiliaid a buddsoddi yn y gymuned, bydd y prosiect Rhwydwaith TALENT Twristiaeth yn meithrin arloesedd a thwf yn y sector wrth drechu problemau o ran recriwtio a chadw gweithwyr.<br><br>Gwefan - tourismtalentpathfinder.gllm.ac.uk | |

POWERED BY LEVELLING UP

| WorkingSense | |
|---|---|
| **Arweinydd Prosiect: Y Ganolfan Arwyddo-Golwg-Sain.** Mae'r prosiect hwn yn ymdrin â mwy nag un awdurdod lleol. | **Cyswllt: Clare Lewis (Rheolwr Prosiect)** **workingsense@signsightsound.org.uk** **07435967326 / 01492 530013** |
| Mae Working Sense yn brosiect a fydd yn gwella sgiliau gwaith pobl sy'n 25 oed neu'n hŷn gydag anabledd, drwy gynnig cymorth arbenigol fyddai'n fodd i'r grŵp targed i ddod o hyd i waith / mynd yn ôl i weithio ac aros mewn cyflogaeth neu ddod yn nes at ddod o hyd i waith. Bydd staff prosiect dynodedig Working Sense yn cyflawni hyn drwy gynnig cymorth cyfannol un-i-un. | |

| Rhaglen Strategol Sir Ddinbych yn Gweithio (WD) | |
|---|---|
| **Arweinydd Prosiect: Cyngor Sir Ddinbych** | **Cyswllt: Melanie Evans** **Melanie.a.evans@denbighshire.gov.uk** **01824 712870** |
| Nod Sir Ddinbych yn Gweithio ydy trechu tlodi drwy gefnogi trigolion Sir Ddinbych i fanteisio ar addysg, gwaith neu hyfforddiant. Mae'r rhaglen yn darparu llwybr mwy rhwydd a didrafferth er mwyn i'r holl drigolion allu manteisio ar gymorth ac mae'n sicrhau caiff prosiectau sydd ag arbenigedd sy'n diwallu eu hanghenion penodol eu neilltuo iddyn nhw. Gwefan cysylltiedig: Sir Ddinbych yn Gweithio | |

| Rhifedd am Oes | |
|---|---|
| **Arweinydd Prosiect:Grŵp Llandrillo Menai** | **Cyswllt: Alex Carter** **carter1a@gllm.ac.uk** **01745 828 100 x 1973** **07842 438 447** |
| Bydd Grŵp Llandrillo Menai yn cydweithio gyda'r awdurdodau lleol yn eu dalgylch (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych), i hybu rhifedd ymysg oedolion mewn amrywiaeth helaeth o weithleoedd a mannau cymunedol i gefnogi trigolion yn y siroedd dan sylw i wella eu sgiliau rhifedd mewn cyd-destun sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Yn ogystal â'r ddarpariaeth gymunedol, mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnig bod y ddarpariaeth a chefnogaeth un-i-un ar gael yn lleol, er mwyn gallu mabwysiadu dull cymysg lle gall unigolion fanteisio ar sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb ynghyd â derbyn cefnogaeth a gynlluniwyd a sesiynau addysg mewn amryw fannau cymunedol ledled y siroedd. Gwefan cysylltiedig: Rhifedd am Oes - Lluosi: Cyrsiau Am Ddim i Oedolion (gwefan allanol) | |

Funded by UK Government

| Cronfa Allweddol Lluosi Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych | |
|---|---|
| **Arweinydd Prosiect: Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych** | **Cyswllt: Janet Halliwell**<br>**janet@dvsc.co.uk**<br>**07376 124575** |
| Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn awyddus i ariannu prosiectau tymor byr sy’n hybu hyder a gallu rhifedd oedolion sy’n 19 oed a hŷn ledled Sir Ddinbych.<br>• Grantiau refeniw £20K-£50K ar gael<br>• Rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU | |

## Atodiad B – Allbynnau a Deilliannau

Bydd angen i'ch prosiect gyflawni'r allbynnau a'r deilliannau canlynol:

| **Allbwn** | **Uned Mesur** | **Diffiniad** |
|---|---|---|
| Nifer y bobl economaidd anweithgar sy'n manteisio ar wasanaethau cymorth gan weithwyr allweddol | Nifer y bobl | Nifer y bobl economaidd anweithgar sy'n manteisio ar wasanaethau cymorth gan weithwyr allweddol<br>- Unigolion economaidd anweithgar ydy'r rheiny sydd ddim yn gweithio neu wrthi'n chwilio am waith (yn annhebyg i unigolion di-waith sydd wrthi'n chwilio am waith). Nid yw pob unigolyn economaidd anweithgar yn hawlio budd-daliadau. O ran y rheiny sydd yn hawlio budd-daliadau, byddai'n cynnwys y rheiny sydd naill ai yn hawlio budd-daliadau “etifeddol” neu'r rheiny o fewn cyfundrefnau amodoldeb penodol o ran Credyd Cynhwysol. Mae'r cyntaf yn cynnwys Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA), Budd-dal Analluogrwydd (IB) a Chymhorthdal Incwm (IS). Mae'r ail yn cynnwys hawlwyr o fewn y trefniadau amodoldeb Gofyniad Paratoi neu'r Gofyniad Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith (neu'r hyn sydd gyfwerth ar gyfer pob un o'r uchod). Does dim angen i'r unigolyn dan sylw fod yn anweithgar am unrhyw gyfnod penodol.<br>- Mae gweithwyr allweddol yn staff rheng flaen sy'n cynorthwyo trigolion fel rhan o ymyriad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.<br>- Mae gwasanaethau ychwanegol yn cynnwys y canlynol ond nid yw'n rhestr gyflawn: hyfforddiant bywyd lleol, mathemateg a sgiliau digidol, cymorth cyflogaeth, grwpiau cymorth iechyd, cwnsela, gwasanaethau iechyd meddwl a chyngor, cymorth ariannol, cymorth arbenigol, gweithgareddau cyfoethogi a chymorth tai. |
| Nifer y bobl sy'n manteisio ar gymorth iechyd meddwl a chorfforol sy'n mynd rhagddi i ddod o hyd i waith | Nifer y bobl | Pobl sydd wedi manteisio ar gymorth iechyd meddwl a chorfforol, sy'n datgan bod gwelliannau i'w hiechyd wedi eu helpu i ddod o hyd i waith.<br><br>Mae unigolion cyflogedig yn bobl 16 oed a hŷn sy'n cyflawni awr neu fwy o waith gyda thâl pob wythnos, neu sydd i ffwrdd o'r gwaith dros dro (e.e. oherwydd eu bod yn sâl dros dro neu ar eu gwyliau). Mae hyn yn cynnwys: |

| | | |
|---|---|---|
| | | -Gweithwyr (gweithwyr parhaol a dros dro, mae'r ail yn cynnwys y rheiny sydd â chytundebau tymor sefydlog, neu sy'n gweithio dros dro ar ran asiantaethau ac ati.)<br>-Unigolion hunan-gyflogedig.<br>-Pobl ar raglenni hyfforddiant sydd wedi'u cefnogi gan y llywodraeth, sy'n ymwneud ag unrhyw fath o waith, profiad gwaith neu hyfforddiant sy'n ymwneud â gwaith.<br>-Pobl sydd ar gyfnod mamolaeth neu dadolaeth.<br><br>Byddai cychwyn gweithio yn golygu na ddylai fod yr unigolyn yn gweithio cyn yr ymyriad (h.y. roedden nhw'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith). |
| Nifer y bobl sydd wedi derbyn cymorth i fanteisio ar gyrsiau sgiliau sylfaenol | Nifer y bobl | Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i gyflawni cyrsiau sydd â'r nod o wella'u sgiliau sylfaenol.<br>- Dyma rai o'r sgiliau sylfaenol ond nid yw'n rhestr gyflawn: sgiliau Saesneg, Mathemateg, Digidol ac ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill). |
| Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i wella'u sgiliau bywyd | Nifer y bobl | Nifer y bobl sydd wedi derbyn cymorth i wella'u sgiliau bywyd.<br>- Mae cymorth sgiliau bywyd yn gymorth ychwanegol sy'n hybu hyder, gwytnwch neu gymhelliant yn ymwneud â'r broses o chwilio am waith a gallai gynnwys sgiliau sylfaenol (Saesneg, Mathemateg), sgiliau digidol, sgiliau cyfathrebu, sgiliau cyflwyno, gweithgareddau sy'n lleihau ynysigrwydd gymdeithasol neu sy'n annog ymddygiadau priodol ar gyfer gweithio. |

| **Deilliannau** | **Nifer y bobl** | **Diffiniadau** |
|---|---|---|
| Pobl sy'n derbyn cymorth i wella'u sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau | Nifer y bobl | Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i wella'u sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau.<br>- Caiff cymorth sgiliau bywyd ei ddiffinio fel cymorth ychwanegol sy'n hybu hyder, gwytnwch neu gymhelliant yn ymwneud â'r broses o chwilio am waith a gallai gynnwys sgiliau sylfaenol (Saesneg, Mathemateg), sgiliau digidol, sgiliau cyfathrebu, sgiliau cyflwyno, gweithgareddau sy'n lleihau ynysigrwydd gymdeithasol neu sy'n annog ymddygiadau priodol ar gyfer gweithio. |

| | | |
|---|---|---|
| Pobl sy'n derbyn cymorth i wella'u sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau | Nifer y bobl | Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth i wella'u sgiliau bywyd yn dilyn ymyriadau.<br>- Caiff cymorth sgiliau bywyd ei ddiffinio fel cymorth ychwanegol sy'n hybu hyder, gwytnwch neu gymhelliant yn ymwneud â'r broses o chwilio am waith a gallai gynnwys sgiliau sylfaenol (Saesneg, Mathemateg), sgiliau digidol, sgiliau cyfathrebu, sgiliau cyflwyno, gweithgareddau sy'n lleihau ynysigrwydd gymdeithasol neu sy'n annog ymddygiadau priodol ar gyfer gweithio. |
| Nifer y bobl sy'n ennill cymwysterau, trwyddedau a sgiliau | Nifer y bobl | Y nifer o bobl sy'n ennill cymwysterau neu drwyddedau (e.e. trwyddedau galwedigaethol) |
| Nifer yr unigolion gweithredol neu barhaus sy'n cymryd rhan mewn grwpiau cymunedol yn sgil derbyn cymorth | Nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan | Y nifer sy'n cymryd rhan weithredol mewn grwpiau cymunedol dros gyfnod parhaus.<br>- Mae cymryd rhan weithredol yn golygu mynychu 50% neu fwy o sesiynau mewn isafswm cyfnod o dri mis o leiaf.<br>- Mae grŵp cymunedol yn golygu grŵp neu fudiad hunanlywodraethol ac nid-er-elw sy'n gweithio er budd y cyhoedd. |
| Nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau gofal iechyd prif ffrwd | Nifer y bobl | Nifer y bobl sy'n derbyn unrhyw fath o driniaeth gan y GIG. |
| Nifer y bobl sy'n derbyn addysg/hyfforddiant ar ôl manteisio ar gymorth | Nifer y bobl | Pobl sydd wedi derbyn cymorth ac sydd newydd fanteisio ar addysg (dysgu gydol oes, addysg ffurfiol) neu weithgareddau hyfforddiant (hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith / yn y gwaith, hyfforddiant galwedigaethol ac ati) unwaith iddyn nhw adael y prosiect. |
| Nifer y bobl sydd mewn gwaith gyda chefnogaeth | Nifer y bobl | Nifer y bobl sydd wedi derbyn cymorth yn y gwaith wedi'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU sy'n fodd iddyn nhw barhau mewn gwaith a datblygu neu wneud cynnydd yn y gwaith. Gallai hyn fod ar sawl ffurf gan gynnwys hyfforddiant, sgiliau a chymorth gyda manteisio ar waith (megis addasiadau rhesymol) a / neu gostau sy'n ymwneud â gwaith megis cyfarpar, gofal plant neu drafnidiaeth. |

## Atodiad C – Gwariant Anghymwys

Caiff yr eitemau canlynol eu hystyried yn anghymwys:

- Defnyddio’r Grant i dalu am lobïo, sy’n golygu defnyddio’r Grant i ariannu lobïo (drwy gwmni allanol neu staff mewnol) er mwyn ymgymryd â gweithgareddau sydd â’r bwriad o ddylanwadu neu geisio dylanwadu ar weithgarwch y Senedd, y Llywodraeth neu weithgarwch gwleidyddol; neu geisio â dylanwadu ar gamau deddfwriaethol neu reoleiddiol.
- Defnyddio’r Grant i alluogi un rhan o’r llywodraeth yn uniongyrchol i herio un arall ar bynciau nad ydyn nhw’n gysylltiedig â diben y grant y cytunwyd arno.
- Defnyddio’r Grant i gyflwyno deiseb am gyllid ychwanegol.
- Defnyddio’r Grant i dalu treuliau megis ar gyfer difyrru, sydd â’r nod yn benodol o ddylanwadu’n ormodol er mwyn newid polisi’r llywodraeth.
- Defnyddio’r Grant i adennill TAW gan Cyllid a Thollau EM.
- Defnyddio’r Grant i dalu am weithgareddau o natur plaid wleidyddol neu grefyddol yn unig.
- Defnyddio’r Grant i dalu am eitemau sydd heb eu cymeradwyo gan y Panel Sgorio
- Defnyddio’r Grant i dalu am eitemau gydag arian parod.
- Defnyddio’r Grant i dalu am beiriannau ac offer sylweddol.

Dyma enghreifftiau eraill o wariant sydd wedi’u gwahardd:

- Cyfraniadau mewn nwyddau.
- Taliadau llog neu daliadau tâl gwasanaeth ar gyfer prydlesi cyllid.
- Rhoddion.
- Dirwyon statudol, dirwyon troseddol neu gosbau sifil, iawndaliadau neu unrhyw gostau cyfreithiol cysylltiedig.
- Taliadau am waith neu weithgareddau y mae gan dderbynnydd y grant, neu unrhyw aelod o’r Bartneriaeth ddyletswydd statudol i ymgymryd â nhw, neu sydd wedi’u hariannu’n gyfan gwbl gan ffynonellau eraill.
- Dyledion drwg i bleidiau cysylltiedig.
- Taliadau am ddiswyddo annheg neu iawndal arall.
- Costau dibrisiant, amorteiddiad neu amhariad ar asedau sy’n eiddo i Dderbynnydd y Grant
- Bydd caffael neu wella Asedau gan Dderbynnydd y Grant (oni bai bod y Grant er defnydd cyfalaf yn benodol) yn cael ei nodi yn y Llythyr Cyllid Grant a
- Ymrwymiadau cyn i’r Cytundeb Cyllid Grant gychwyn oni bai y cytunir arno’n ysgrifenedig gan yr Awdurdod.

## Atodiad D – Cydymffurfiad Ariannol

**Dyfarniad Grant**

Bydd yn rhaid i ymgeisydd y gronfa allweddol dalu costau'r prosiect ac adennill y symiau y cytunir arnyn nhw gan Cadwyn Clwyd gan ddefnyddio Ffurflen Hawlio Grant sydd wedi'i ddarparu. (***Os na allai'r ymgeisydd dalu'r costau ymlaen llaw, ewch ati i drafod hyn gyda'r swyddog prosiectau os gwelwch yn dda ac fe ellir ystyried opsiynau eraill)***

Caiff y ffurflen hawlio ei darparu i ymgeiswyr grant llwyddiannus unwaith y bydd y prosiect wedi'i gymeradwyo. Bydd angen i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r gofynion canlynol pan fyddan nhw'n hawlio cyllid gan Cadwyn Clwyd:

**Gofynion tystiolaeth pan fyddwch chi'n cyflwyno hawliad:**

1. **Copi o'r Anfoneb(au) sydd wedi'u talu:** yn dangos 100% o'r costau sydd wedi'u hawlio. Mae'n rhaid sicrhau bod copïau o'r anfonebau ategol wedi'u cyfeirio at y mudiad sy'n hawlio, neu dderbynebau pan fo'n briodol. Bydd yn rhaid i lungopïau gael eu hardystio gan swyddog perthnasol yn y mudiad. Bydd yn rhaid i swyddog cyllid Cadwyn Clwyd fwrw golwg ar y dogfennau / anfonebau gwreiddiol. Caiff anfonebau eu gwirio i sicrhau eu bod yn unol â'r cais prosiect.

2. **Datganiadau Banc:** er mwyn profi bod y mudiad sy'n adennill y costau gan Cadwyn Clwyd wedi talu'r costau. Bydd yn rhaid i lungopïau gael eu hardystio gan swyddog perthnasol yn y mudiad. Mae'n rhaid sicrhau bod enw'r mudiad a'r rhif cyfrif a chod didoli yn ymddangos yn amlwg. Mae datganiadau ar-lein yn dderbyniol ond os nad ydyn nhw'n dangos enw'r mudiad, gofynnwn yn garedig ichi gyflwyno un copi o ddatganiad banc er mwyn inni allu dangos tystiolaeth o enw'r cyfrif ac ati. Dylid sicrhau bod datganiad banc gwreiddiol ar gael i swyddog cyllid Cadwyn Clwyd allu bwrw golwg arno.
3. **Tystiolaeth Caffael**: Tystiolaeth i ategu / profi bod y gweithdrefnau caffael wedi'u cyflawni'n gywir gan y mudiad sy'n adennill y costau.
4. **Tystiolaeth o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni:** e.e. copi o adroddiad ysgrifenedig, tystiolaeth o ddigwyddiadau, datganiadau i'r wasg, gwaith Cysylltiadau Cyhoeddus sydd wedi'i gyflawni ac ati.
5. **Adroddiad Cynnydd Ysgrifenedig:** bydd angen ichi gwblhau Adroddiad Cynnydd. Caiff templed ei ddarparu i ymgeiswyr llwyddiannus unwaith y bydd y cais wedi'i gymeradwyo. Dylid cyflwyno'r adroddiad i Cadwyn Clwyd ar adegau penodol o'r prosiect fel sydd wedi'i grybwyll yn eich Llythyr Cymeradwyo.

6. **Tystiolaeth Allbynnau:** bydd angen ichi ddarparu Tystiolaeth o'r Allbynnau. Caiff ffurflenni tystiolaeth eu darparu ichi unwaith inni gymeradwyo eich cais ac fe ddylid eu cyflwyno i Cadwyn Clwyd ar adegau penodol o'r prosiect fel sydd wedi'i grybwyll yn eich Llythyr Cymeradwyo.

**Caffael**

Dylai'r holl brosiectau sydd wedi'u hariannu ddangos gwerth am arian a chaffaeliad agored a thryloyw o'r holl nwyddau a gwasanaethau.

**Mae'n rhaid i'r prosiectau gydymffurfio gyda'r gofynion canlynol ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau:**

**Cynghorir i'r holl ymgeiswyr geisio cyngor gan y swyddog prosiect cyn cychwyn ar y broses caffael.**

| Gwerth Terfynol Nwyddau/Gwasanaethau (ac eithrio TAW) | Amod | Gweithred |
|---|---|---|
| £0 - £2,499 | Un dyfynbris ysgrifenedig* | |
| £2,500 - £24,999 | O leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig* | 3 dyfynbris neu brisiau ysgrifenedig wedi'u caffael gan gyflenwyr nwyddau, gwaith a / neu wasanaethau perthnasol. |
| £25,000 + | Proses tendro ffurfiol* | Ar gyfer prosiectau sy'n derbyn mwy na 50% o gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU / Cyllid Cyhoeddus, bydd angen iddyn nhw hysbysebu drwy'r porth www.sell2wales.gov.wales (Bydd swyddog ar gael i gynnig cymorth a chefnogaeth os bydd angen). |

*Mae'r adran hon ond yn berthnasol i Fentrau Cymdeithasol, Cwmnïau Buddiant Cymunedol a/neu Grwpiau Cymunedol sy'n masnachu.*

**Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau**

Nid yw'r cymorth gan Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych wedi'i bwriadu i gefnogi endidau neu weithgareddau masnachol. Ni fyddem yn disgwyl i brosiectau sy'n derbyn cymorth gan y Gronfa Allweddol gael eu hystyried yn weithgaredd economaidd gan nad ydyn nhw'n cael eu cyflawni at ddiben economaidd. Gan nad yw'r Gronfa Allweddol a'i phrosiectau cysylltiedig yn cyflawni gweithgarwch economaidd, yna nid yw'n 'Fenter' ac ni chaiff unrhyw gymhorthdal ei godi. Mae'n annhebygol felly y bydd prosiectau sy'n derbyn cymorth yn gallu ystumio'r farchnad lafur neu o bosibl gael effaith ar fasnach, buddsoddiad neu gystadleuaeth genedlaethol neu ryngwladol.

Fodd bynnag, mewn achos lle byddai modd pennu'r prosiect arfaethedig fel cymhorthdal, yna byddai'r rheolau rheoli cymhorthdal canlynol yn berthnasol.

Lle bo'n berthnasol, mae'n rhaid i arian grant sy'n gymhorthdal gydymffurfio gydag ymrwymiadau Rheoli Cymhorthdal rhyngwladol y DU. Mae mwy o wybodaeth yma: Guidance on the UK's international subsidy control commitments - GOV.UK (www.gov.uk)

Caiff grantiau sydd wedi'u cyflwyno drwy'r cyllid hwn eu dosbarthu fel Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn unol â'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau (2022). Mae'n rhaid i'r ymgeisydd nodi'r holl gymorthdaliadau maen nhw wedi'u derbyn yn eu ffurflen gais, gan gynnwys y cynlluniau rhagflaenol megis de minimis y DU; 'Eithriad Symiau Bach o Gyllid' (SAFE); 'Symiau Bach o Gymorth Ariannol' (SAFA); a 'Hawliau Arbennig Tynnu Arian' (SDR), a dderbyniwyd yn ystod eu blwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. **Mae Hawliau Arbennig Tynnu Arian yn uned y Gronfa Ariannol Ryngwladol ac mae 325,000 Hawl Arbennig Tynnu Arian yn oddeutu £315,000 ar hyn o bryd.** Caiff y cyfanswm arian ei bennu gan ddefnyddio'r Trawsnewidydd Hawliau Arbennig Tynnu Arian y Gronfa Ariannol Ryngwladol. **Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol dros sicrhau nad yw cyfanswm y Cymorth Ariannol Lleiaf caiff ei ddyfarnu i'r fenter yn uwch na'r mwyafswm o £315,000 yn ystod unrhyw gyfnod ariannol treigl o dair blynedd.** Bydd angen i'r Ymgeiswyr nodi'r holl gymorth maen nhw wedi'i dderbyn ymhen yr amser penodol, er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n torri'r rheolau rheoli cymorthdaliadau. Sylwch. Mae Cymorth Ariannol Lleiaf nid yn unig yn dosbarthu grantiau fel cyllid ond hefyd cymorth megis gwasanaethau ymgynghori am ddim neu gymorthdaledig, cyngor marchnata ac ati.

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd ddangos ar eu ffurflen gais pa brosesau sydd ganddyn nhw ar waith i fonitro'r cyllid cyhoeddus a dderbyniwyd gan y mudiad a monitro cymorth yn amodol ar Reoli Cymorthdaliadau. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gadw cofnod o'r cymorth sydd wedi'i dderbyn am 10 mlynedd. Os caiff y rheolau hyn eu torri, gallai'r ymgeisydd fod yn gyfrifol am dalu gwerth llawn y cymorth a dderbyniwyd. Bydd Cadwyn Clwyd hefyd yn cadw cofnod o'r holl ddyfarniadau cyllid.